

bywyd ar yr ochor




Prosiect Ymylon Ffyrdd
Diogelu Blodau Gwylt Sir Ddinbych

Pam y mae ymylon ffyrdd yn bwysig i fywyd gwyllt?

Mae ymylon ffyrdd wedi dod yn fwyfwy pwysig fel lloches i fywyd gwyllt oherwydd eu bod, yn wahanol i lawer o gynefinoedd sy'n cael eu ffermio, wedi cael llonydd rhag gwrtaith neu blaeiddiad, sy'n gallu dinistrio rhywogaethau gwyllt. Mae hyn yn golygu eu bod yn gallu cynnal llawer o'n blodau gwyllt mwyaf prydferth a phrin hyd yn oed er bod y rhain wedi diflannu hwyrach o'r ardaloedd gwledig oddi amgylch. Mae hyn yn caniatáu i amrywiaeth hynod o fywyd gwyllt, megis cacwn, gloënnod byw ac infertebratau, yn ogystal â madfallod, amffibiaid, mamaliaid bychain ac amryw o adar, oroesi ar ymylon ffyrdd. Mewn llawer achos yr ymylon hyn yw'r cyfan sydd ar ôl o weigrloddiau a phorfeydd toreithiog eu llysiau a oedd yn gyffredin ar un adeg.

Ynghyd â gwrychoedd a waliau cerrig cyfagos, mae ymylon ffyrdd yn ffurfio rhwydwaith o lwybrau naturiol sy'n ymestyn ar draws cefn gwlad, yn aml ynghanol môr o amaethu dwys. Mae'r rhain yn gallu gweithredu fel coridorau y gall bywyd gwyllt symud ar eu hyd, ac fe allant helpu rhywogaethau i addasu i newid yn yr hinsawdd.




Tegeirian Brych



Pig-yr-aran y weigrlodd

Beth sy'n arbennig ynglŷn ag ymylon ffyrdd yn Sir Ddinbych?

Mae ymylon ffyrdd Sir Ddinbych yn nodedig am amrywioldeb eu rhywogaethau, sy'n cael ei benderfynu i raddau helaeth gan y ddaear a'r priddoedd sy'n fwyaf cyffredin. Mae'r rhain wedi creu amrywiaeth o gynefinoedd glaswelltir ar draws y sir. Ymhlith y mwyaf trawiadol mae'r glaswelltiroedd calchaid yn y gogledd a'r dwyrain ble mae planhigion sy'n hoff o galchfaen, megis Tegeirianau, Pig Garan y Weirglodd, Clafrllys, Briallen Fair, Briwydd Felen, Eurinllys, Cribell Felen a llawer o flodau gwyllt eraill i'w cael yn helaeth iawn. Mewn mannau eraill, mae ymylon ffyrdd sy'n fwy nodweddiadol o'r glaswelltir asidaidd heb ei wella a geir yn ardaloedd yr ucheldir a glaswelltir niwtral yr iseldir yn cynnal Serenllys Mawr, Clychlys Mawr, Pig yr Aran Ddisglair, Distrewlys, Clychau'r Eos neu Fysedd y Cŵn. Mae planhigion a gysylltir fwy â chynefinoedd coedwigol, yn cynnwys Clychau'r Gog, Briallu a Gludlys Coch, i'w cael yn tyfu ar rai ymylon ffyrdd hefyd.



Llain Gludlys coch ac Erwain

Mae dros 1110 km (690 milltir) o ymylon ffyrdd yng nghefn gwlad Sir Ddinbych, gyda'r rhai pwysicaf i'w cael ar y ffyrdd bach, sy'n aml yn dilyn hen hen lwybrau a throedffyrdd. Mae blodau gwyllt ar ymylon ffyrdd yn nodwedd atyniadol ar y dirwedd hefyd.



Clychau'r Gog

Sut y mae ymylon ffyrdd yn cyfrannu at fioamrywiaeth y DU a bioamrywiaeth leol?



Cribell Felen

Gan fod dolydd traddodiadol wedi dirywio i'r fath raddau dros y 70-80 mlynedd ddiwethaf, maent wedi'u rhestru yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU fel cynefin blaenoriaethol ar gyfer gweithredu cadwraethol. Am fod ymylon ffyrdd yn awr yn lle fwyfwy pwysig ar gyfer goroesiad y math hwn o gynefin, mae'r ymylon ffyrdd toreithiog o flodau mwy pwysig wedi'u hamlygu hefyd mewn Cynlluniau Gweithredu

Bioamrywiaeth cenedlaethol a sirol, gyda thargedau i ddiogelu a gwella eu gwerth i fywyd gwyllt. Os cânt eu rheoli i gymryd bywyd gwyllt i ystyriaeth, gall ymylon ffyrdd wneud cyfraniad arwyddocaol at gadwraeth bioamrywiaeth yn y sir.

Beth sy'n cael ei wneud i ddiogelu gwerth bioamrywiaeth ymylon ffyrdd?

Mae llawer o bobl yn gwybod am ymylon ffyrdd yn eu hardal leol ble mae blodau gwyllt yn ymddangos yn y gwanwyn neu'r haf dim ond i gael eu torri ar yr union adeg y maent ar eu mwyaf trawiadol. Yn ogystal â gwneud ein hamgylchoedd yn llai atyniadol, mae torri ymylon ffyrdd pan fyddant yn llawn planhigion yn eu blodau hefyd yn niweidio'r bywyd gwyllt sy'n bwydo, cysgodi a nythu yno. Er bod y rhan fwyaf o ymylon ffyrdd yn elwa ar gael eu torri ryw ben yn y flwyddyn, yn ddelfrydol dylid caniatáu i'r planhigion y maent yn eu cynnal flodeuo a gosod hadau yn gyntaf, neu fel arall byddwn ymhen amser yn colli'r blodau gwyllt a llawer o'r bywyd gwyllt sy'n gysylltiedig â nhw.



Mantell Goch ar mwyar duon

Heddiw nid yw pob ymyl ffordd yn doreithiog o flodau ac yn llawn pryfetach. Mae dulliau cyfoes o dorri ymylon ffyrdd gyda pheiriant ffust-dorri, wedi'i gyfuno â thorri mynych trwy gydol y gwanwyn a'r haf, wedi achosi dirywiad yng ngwerth yr ymylon ffyrdd i fywyd gwyllt. Mae cynnydd yn ffrwythlondeb y pridd sy'n deillio o doriadau glaswellt a phenflingo priddoedd yn annog y glaswelltau brasach a rhywogaethau egniol i

oruchafu hefyd. Serch hynny, os cânt eu gadael heb eu rheoli bydd ymyl y ffordd yn cael ei gytrefu gan brysgwydd a rhywogaethau prenaidd hefyd.

Mae'r Awdurdod Priffyrdd ynghyd â Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu gwell cyfundrefnau rheoli ar gyfer ymylon ffyrdd Sir Ddinbych, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, i gynnal a gwella eu gwerth ar gyfer bioamrywiaeth ond heb beryglu diogelwch ar y ffyrdd. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod cyrff cyhoeddus, yn cynnwys Awdurdodau Lleol a Chynghorau Cymuned â dyletswydd benodol yn awr o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006 i hyrwyddo cadwraeth bioamrywiaeth.

Mae rhaglen barhaus i dorri ymylon ffyrdd gwledig mewn ffordd fwy cyfeillgar at fywyd gwyllt wedi dechrau. Ar wahân i ble mae diogelwch ar y ffyrdd yn ystyriaeth, bydd torri'r ymylon ar ffyrdd bach yn cael ei amseru'n ofalus fel bod planhigion gwyllt yn gallu blodeuo a gosod hadau. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn dal i edrych yn drawiadol ac yn helpu i ddiogelu ein bywyd gwyllt at y dyfodol. Dylai hyn hefyd leihau'r aflonyddu ar adar sy'n nythu mewn gwrychoedd.

Mae cyfundrefn reoli isel ei dwysedd yn cael ei threialu i benderfynu'r amseroedd torri gorau posibl ar gyfer gwahanol fathau o laswelltir ac, wrth wneud hynny, sicrhau cadwraeth ac amddiffyniad y niferoedd mwyaf o flodau gwyllt a bioamrywiaeth gysylltiedig arall.



Glesyn Cyffredin ar Eurinllys



Briallen Fair



Cacwn ar Glafrrlys



Gwyn Blaen Oren ar Flodyn Llefrith



Gweirlöyn y Ddôl ar Bengaled

Gwarchodfeydd Natur Ochr Ffordd

Yn ychwanegol at y polisiâu rheoli ymylon ffyrdd cyffredinol a grybwyllwyd uchod, mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru hefyd wedi clustnodi nifer o ymylon ffyrdd o ddiddordeb cadwraeth arbennig, naill ai oherwydd eu planhigion prin neu oherwydd eu bod yn weddillion cynefinoedd glaswelltir sy'n brin bellach. Mae'r rhain wedi'u dynodi'n Warchodfeydd Natur Ochr Ffordd ac maent yn cael eu rheoli gan yr Awdurdod Priffyrdd yn ôl cyfarwyddiadau rheoli penodol. Serch hynny, dim ond cyfran fach iawn o'r rhwydwaith ymylon ffyrdd cyfan y mae'r ymylon ffyrdd arbennig hyn yn ei ffurfio.

Nodau'r Prosiect Ymylon Ffyrdd

- ❁ Lleihau dwyster y gyfundrefn dorri gyffredinol, gan ohirio amseriad y torri tan ddiwedd yr haf/ddechrau'r hydref i osgoi'r prif flodeuo a hadu, oni bai bod rhesymau diogelwch dros wneud.
- ❁ Osgoi torri'n rhy isel i leihau'r niwed i briddoedd.
- ❁ Torri ymylon ffyrdd gyda glaswelltir carreg galch a glaswelltir asidaidd gyda llystyfiant arafach eu twf unwaith yn unig ym mis Awst/Medi.
- ❁ Ystyried torri achlysurol ddechrau mis Mai ar ymylon ffyrdd mwy cynhyrchiol i reoli twf glaswelltau brasach a rhywogaethau trech.



Bras Melyn



Gwiber



Llygoden Bengron Goch

Os hoffech gael gwybod mwy am y Prosiect Ymylon Ffyrdd yn Sir Ddinbych, neu os hoffech anfon gwybodaeth am unrhyw ymylon ffyrdd sydd o ddiddordeb arbennig, cysylltwch ag un o'r canlynol os gwelwch yn dda:

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

 01352 810469

Gwasanaeth Cefn Gwlad, Cyngor Sir Ddinbych

 01824 708263/708234

Cludiant ac Isadeiledd

 01824 706101

Neu e-bostio - bioamrywiaeth@sirddinbych.gov.uk

Clychau'r Eos



Cefnogir y prosiect gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Leol Sir Ddinbych. Cynhyrchwyd y daflen hon gan Wasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych gyda arian gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru.



CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL

